POLISI IAITH

Nod yr ysgol yw hyrwyddo i'r eithaf ddatblygiad dwyieithog pob disgybl, fel y gall fwynhau a chyfranogi'n llawn i fywyd y gymdeithas ddwyieithog ar ôl ymadael â'r ysgol.

I weithredu hyn cynigir cyfran helaeth o'r addysg drwy'r Gymraeg gan ddiogelu hyfedredd y disgyblion mewn dwy iaith a chofio y bydd cryn wahaniaeth yng nghyraeddiadau'r gwahanol ddisgyblion yn y Gymraeg ac yn y Saesneg. O gofio natur ieithyddol cylch yr ysgol, awyrgylch Gymreig sydd iddi a'r Gymraeg yw iaith naturiol cyfathrebu yn yr ysgol. Cynhelir y cynulliadau boreol a gweithgareddau'r ysgol yn bennaf yn y Gymraeg a gwneir pob ymdrech i ofalu nad yw'r hwyrddyfodiaid yn colli dim a'u bod yn cymryd rhan lawn ym mywyd cymdeithasol yr ysgol. Bydd yn angenrheidiol i bob disgybl astudio'r Gymraeg a'r Saesneg fel pynciau hyd at ddiwedd Blwyddyn 11 a sefyll yr arholiadau priodol ar derfyn y cwrs. Polisi pendant yr ysgol yw datblygu Saesneg a Chymraeg y plant yn llafar ac yn ysgrifenedig mewn nifer o bynciau a phrofiadau fel dilyniant naturiol i waith dwyieithog yr ysgolion cynradd. Mae hyn yn hynod o bwysig am y tair blynedd gyntaf ac fe osodir y plant yn ofalus iawn mewn grwpiau addas yn unol â'u cyraeddiadau ieithyddol.

Os bydd gennych bryderon a chwestiynau ynglŷn â'r drefn mae croeso i chwi ddod draw am sgwrs â Phennaeth yr ysgol, Mrs Annwen Morgan. Cewch gyfle i drafod pryderon unigol a chael atebion i'ch cwestiynau penodol.

LANGUAGE POLICY

The aim of the school is to fulfil the bilingual development of each pupil so he/she will enjoy the cultural and economic benefits and contribute fully to the bilingual society after leaving school.

In accordance with the Local Education Authority's language policy, the school has been designated as a Model B(i) school. This model requires a school to offer a substantial part of its education through the medium of Welsh whilst at the same time promoting the pupil's fluency in two languages, taking into account pupils' differing abilities in Welsh. The school has a Welsh atmosphere and considerable emphasis is placed in promoting this ethos throughout the curriculum. The morning assembly and school activities are mainly in Welsh and every effort is made to ensure that learners can understand and participate in such activities. All encouragement will also be given to learners so that they are successfully integrated into the social life of the school community. All pupils are expected to study Welsh and English up to the end of Year 11 and to sit the appropriate examinations at the end of the course. It is the school's firm policy to develop English and Welsh oral and written skills in many subject areas, ensuring a natural development of the bilingual work carried out in the primary schools. This is particularly important for the first three years and pupils are placed carefully in appropriate groups according to their linguistic abilities.

If you have specific concerns and questions you are invited to discuss matters with the school's Headteacher, Mrs Annwen Morgan.